



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Polisi Preifatrwydd GYA

GWASANAETHAU YMCHWIL AC ARLOESI: DEFNYDDIO
EICH GWYBODAETH BERSONOL

Hydref 2025

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cymryd diogelu data o ddifrif. Mae'r Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi (GYA) yn adran cymorth o wasanaethau proffesiynol y Brifysgol. Nid yw'n bosibl i GYA gyflawni ei swyddogaethau a'i rwymedigaethau mewn perthynas ag unrhyw gydweithrediadau neu bartneriaethau, heb ddarparu rhywfaint o ddata personol.

Bydd prosesu eich data personol bob amser yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA2018). Drwy gyfrwng yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, mae'r Brifysgol yn dymuno rhoi gwybod i chi am y canlynol:

- Pam mae'r GYA yn casglu ac yn prosesu eich data personol; a
- Yr hawliau a estynnwyd i chi o ganlyniad i gasglu a phrosesu eich data.

Cynnwys

Diffiniadau	3
Enw a Chyfeiriad y Rheolwr	4
Enw a Chyfeiriad y Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data.....	4
Enw a Chyfeiriad yr Awdurdod Goruchwyllo Arweiniol.....	5
Pa wybodaeth bersonol mae GYA yn ei chasglu?	5
Rhesymau dros gasglu gwybodaeth bersonol a sut ydym yn ei defnyddio?.....	6
Beth yw eich hawliau?	7
Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth bersonol?	8
Pa wybodaeth categori arbennig mae GYA yn ei chasglu?	9
Rhesymau dros gasglu gwybodaeth bersonol a chategori arbennig a sut mae GYA yn ei defnyddio:...	9
Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu?.....	9
Sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio? (Diogelwch prosesu)	9
Pa mor hir fydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?	10
Eich cyfrifoldebau.....	10
Gwneud Penderfyniadau a Phroffilio Awtomataidd	10
Cyffredinol.....	10
Newidiadau i'r Hysbysiad hwn.....	11
Sut i Godi Ymholiad, Pryder neu Gwyn.....	11
Canlyniadau peidio â darparu eich gwybodaeth.....	11
Caniatâd i Dderbyn Marchnata Electronig	11

Diffiniadau

Rheolwr:	Y person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sydd, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill, yn pennu dibenion a dulliau prosesu data personol; lle mae dibenion a dulliau prosesu o'r fath yn cael eu pennu gan gyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth, gellir darparu ar gyfer y rheolwr neu'r meini prawf penodol ar gyfer ei enwebu gan gyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth.
Data Personol:	Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol a nodwyd neu adnabyddadwy ("Gwrthrych y Data"). Mae person adnabyddadwy, naturiol yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol trwy gyfeirio at ddynodwr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein, neu i un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.
Testun y Data:	Unrhyw berson naturiol a nodwyd neu adnabyddadwy, y mae ei ddata personol yn cael ei brosesu gan y Rheolwr sy'n gyfrifol am y prosesu.
Prosesydd:	Person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sy'n prosesu data personol ar ran y Rheolwr.
Derbynnydd:	Person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall, y datgelir y data personol iddo, p'un a yw'n drydydd parti ai peidio. Fodd bynnag, ni fydd awdurdodau cyhoeddus a all dderbyn data personol yn fframwaith ymchwiliad penodol yn unol â chyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth yn cael eu hystyried yn dderbynwyr; bydd prosesu'r data hynny gan yr awdurdodau cyhoeddus hynny yn cydymffurfio â'r rheolau diogelu data perthnasol yn unol â dibenion prosesu.
Trydydd Parti:	Person naturiol neu gyfreithiol, awdurdod cyhoeddus, asiantaeth neu gorff heblaw Gwrthrych y Data, Rheolwr, Prosesydd a phersonau sydd, o dan awdurdod uniongyrchol y Rheolwr neu'r Prosesydd, wedi'u hawdurdodi i brosesu data personol.

Cyfyngu ar Brosesu:	Marcio data personol sydd wedi'i storio gyda'r nod o gyfyngu ar brosesu yn y dyfodol.
Prosesu:	Unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol neu ar setiau o ddata personol, p'un ai trwy ddulliau awtomataidd ai peidio, megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu trwy drosglwyddo, lledaenu neu wneud ar gael fel arall, aliniad neu gyfuniad, cyfyngu, dileu neu ddinistrio.
Proffilio:	Unrhyw fath o brosesu data personol yn awtomataidd sy'n cynnwys defnyddio data personol i werthuso rhai agweddau personol sy'n ymwneud â pherson naturiol, yn benodol i ddadansoddi neu ragfynegi agweddau sy'n ymwneud â pherfformiad y person naturiol hwnnw yn y gwaith, sefyllfa economaidd, iechyd, dewisiadau personol, diddordebau, dibynadwyedd, ymddygiad, lleoliad neu symudiadau.
Caniatâd:	Caniatâd Gwrthrych y Data yw unrhyw arwydd a roddir yn rhydd, penodol, gwybodus a diamwys o ddymuniadau Gwrthrych y Data y mae ef neu hi, trwy ddatganiad neu drwy gamau cadarnhaol clir, yn arwydd o gytundeb i brosesu data personol sy'n ymwneud ag ef neu hi.

Enw a Chyfeiriad y Rheolwr

Y Rheolwr yw:

Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Campws Llandaf
Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd
CF5 2YB

Ffôn: 02920 41 6070

E-bost: dataprotection@cardiffmet.ac.uk

Gwefan: <http://www.cardiffmet.ac.uk/Pages/default.aspx>

Enw a Chyfeiriad y Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data

Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data'r Rheolwr yw:

Sean Weaver
Yr Ysgrifenyddiaeth
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Campws Llandaf



Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd
CF5 2YB

Ffôn: 02920 20 5758
E-bost: dataprotection@cardiffmet.ac.uk
Gwefan: <http://www.cardiffmet.ac.uk/about/structureandgovernance/Pages/Data-Protection---Records-Management.aspx>

Gallwch gysylltu â Sean Weaver yn uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â deddfwriaeth diogelu data.

Sean yw Swyddog Diogelu Data Statudol y Brifysgol sy'n cyflawni'r rôl a nodir yn Erthyglau 37-39 GDPR.

Enw a Chyfeiriad yr Awdurdod Goruchwyllo Arweiniol

Yr Awdurdod Goruchwyllo Arweiniol sy'n goruchwyllo'r Rheolwr yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
Tŷ Wycliffe
Lôn Ddŵr
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 03031 23 1113
E-bost: casework@ico.org.uk
Gwefan: <https://ico.org.uk>

Rhif Cofrestru ICO Metropolitan Caerdydd yw Z471616X. Gellir dod o hyd i'r manylion yn: <https://ico.org.uk/ESDWebPages/Search> gan ddefnyddio'r rhif hwn.

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Brifysgol yn trin ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn ystod eich cyfnod fel darpar gleient neu bartner presennol Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac ar ôl i'n perthynas ddod i ben. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth a bod yn dryloyw ynghylch pa wybodaeth sydd ganddi. Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau diogelu data ar waith, sydd ar gael yma:

<http://www.cardiffmet.ac.uk/about/structureandgovernance/Pages/Data-Protection---Records-Management.aspx>

Pa wybodaeth bersonol mae GYA yn ei chasglu?

Yn ogystal â gwybodaeth dechnegol a busnes rydych yn ei datgelu i ni (gan gynnwys prosiectau a gynhelir drwy'r GYA) i allu cefnogi eich ymholiad/cydweithrediad/arweiniad, rydym yn casglu'r wybodaeth bersonol ganlynol gan unigolion a sefydliadau sy'n dymuno derbyn cymorth neu sy'n bartner gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd:

- Enw cyswllt arweiniol y sefydliad/swyddogion technegol/gweithwyr sy'n ymwneud â'r cymorth/cydweithredu/contract;
- Manylion cyswllt y personél sy'n ymwneud â'r cymorth/cydweithredu/contract;
- Rôl swydd/teitl personél sy'n ymwneud â'r cymorth/cydweithredu/contract;
- Manylion cyswllt cydweithwyr a chynorthwyyr i staff allweddol.
- Gwybodaeth am ymgysylltiad unigolyn â'r brifysgol megis presenoldeb mewn digwyddiadau a gweithdai, gweithgareddau ac ymchwil cydweithredol, ymgynghoriaeth, ac ati.
- Gwybodaeth a gasglwyd at ddibenion Monitro Cyfle Cyfartal, etc.
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â darparu arweiniad a chymorth.
- Gwybodaeth iechyd fel gofynion dietegol neu hygyrchedd.
- Ffotograffau yn ein digwyddiadau cefnogi/hyrwyddo.
- Dewisiadau ar feysydd o ddiddordeb ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol a dulliau o gysylltu â chi.

Bydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn casglu gwybodaeth amdanoch yn ystod ei hymwneud â chi fel cleient/partner presennol neu gyn-bartner.

Rhesymau dros gasglu gwybodaeth bersonol a sut rydym yn ei defnyddio?

Er nad yw'n bosibl nodi pob pwrpas y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio ar ei gyfer, mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut mae'n debygol o gael ei defnyddio tra'ch bod yn gleient/partner.

- Gwerthuso cymhwysedd ar gyfer cymorth prifysgol yn unol â gofynion cydymffurfio â chyllid a phroses cymeradwyo prosiectau'r Brifysgol;
- Monitro a gwerthuso ymrwymadau ar lefel rheoli gweithrediad a llywodraethu;
- Adrodd i gyllidwyr prosiectau a cheisiadau am ddata'r llywodraethu;
- Efallai y byddwn yn casglu gwybodaeth am eich cyflogaeth neu'ch sefydliad fel rhan o'r broses i ddarparu gwasanaethau neu arweiniad i'ch sefydliad;
- Dadansoddi'n ystadegol y perthnasoedd masnachol sy'n bodoli ar draws Prifysgol Metropolitan Caerdydd o bryd i'w gilydd.
- Darparu cynigion o wasanaethau i danysgrifwyr Corfforaethol gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd oni bai eu bod yn optio allan i dderbyn y rhain.
- Mewn cysylltiad â chyflawni prosiectau ymchwil/gweithgaredd archifo fel arfer gan sefydliadau cyhoeddus ac yn unol â mesurau diogelu erthygl 89.
- Ni fydd unrhyw farchnata uniongyrchol yn cael ei wneud i chi heb sail gyfreithiol briodol.

Weithiau, efallai y byddwch yn rhoi eich gwybodaeth bersonol sensitif i ni i fynychu un o'n digwyddiadau (e.e. anghenion hygyrchedd neu ddeietegol), dim ond at y diben hwn y defnyddir gwybodaeth bersonol o'r fath a chaiff ei gwaredu cyn gynted â phosibl. Yn ein digwyddiadau fel arfer bydd gennym ffotograffydd yn bresennol yn tynnu lluniau cyffredinol a ddefnyddir i hyrwyddo'r digwyddiad, neu os ydych wedi gwneud cais i fod mewn gweithgaredd ffurfiol o'r digwyddiad e.e. cystadleuydd/siaradwr byddwn fel arfer yn tynnu lluniau o'r cyflwyniad. Byddwn yn darparu cyfleoedd i optio allan o ffotograffau agos yn y digwyddiadau.

Beth yw eich hawliau?

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, i gywiro, i ddileu, i gyfyngu ac i borthi eich gwybodaeth bersonol (nodwch fodd bynnag bod hyn yn debygol o effeithio ar ein gallu i ddarparu cymorth i chi yn y ffordd fwyaf effeithiol, os o gwbl). Os ydych wedi rhoi caniatâd i Brifysgol Metropolitan Caerdydd brosesu unrhyw ran o'ch data, yna mae gennych hawl hefyd i dynnu'r caniatâd hwnnw yn ôl. Ewch i dudalennau gwe Diogelu Data Prifysgol Metropolitan Caerdydd i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau.

Mae GDPR yn rhoi hawliau i chi. Mae'r hawliau hyn wedi'u crynhoi isod. Er mwyn mynnu unrhyw un o'r hawliau hyn, gallwch gysylltu â Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data'r Brifysgol (dataprotection@cardiffmet.ac.uk) ar unrhyw adeg.

Yr Hawl i Gadarnhau:

Mae gennych chi (Gwrthrych y Data) yr hawl i gael cadarnhad gan y Brifysgol (y Rheolydd) ynghylch a yw data personol yn ymwneud â chi yn cael ei brosesu ai peidio.

Yr Hawl Mynediad:

Mae gennych hawl i gael copi o unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch gan y Brifysgol ar unrhyw adeg. Ar ben hynny, mae gennych yr hawl i gael gwybodaeth ynghylch a yw eich data yn cael ei drosglwyddo i drydedd wlad neu sefydliad rhyngwladol. Lle mae hyn yn wir, mae gennych hawl i gael gwybod am y mesurau diogelu priodol sy'n ymwneud â'r trosglwyddiad.

Yr Hawl i Gywiro:

Mae gennych hawl i gael gan y Brifysgol, heb oedi gormodol, i gywiro data personol anghywir. Gan ystyried dibenion y prosesu, mae gennych hawl i gael data personol anghyflawn wedi'i gwblhau, gan gynnwys trwy ddarparu datganiad atodol.

Yr Hawl i Ddileu

(Yr Hawl i gael eich Anghofio):

Mae gennych hawl i unrhyw ddata personol sy'n ymwneud â chi gael ei ddileu gan y Brifysgol heb oedi gormodol, ac mae gan y Brifysgol rwymedigaeth i ddileu'r data personol heb oedi gormodol pan fo un o'r seiliau statudol yn berthnasol, cyn belled nad oes angen prosesu'r data personol.

Yr Hawl i Gyfyngu ar Brosesu:

Mae gennych hawl i gyfyngu ar brosesu eich data pan fo rheswm statudol yn berthnasol.

Yr Hawl i Gludadwydd Data:

Mae gennych yr hawl i dderbyn y data personol sy'n ymwneud â chi, a ddarparwyd i Reolwr arall, mewn fformat strwythuredig, cyffredin a darllenadwy gan beiriant, at ddibenion sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth gyda'r Brifysgol.

Yr Hawl i Wrthwynebu: Mae gennych hawl i wrthwynebu, ar sail sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol, ar unrhyw adeg, i brosesu data personol sy'n ymwneud â chi.

Gwneud Penderfyniadau Unigol Awtomataidd: Mae gennych hawl i beidio â bod yn destun penderfyniad sy'n seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig, gan gynnwys proffilio.

Yr Hawl i Dynnu Caniatâd yn Ôl: Lle mae caniatâd yn sail ar gyfer prosesu, mae gennych hawl i dynnu'ch caniatâd i brosesu eich data yn ôl ar unrhyw adeg. Gallwch dynnu caniatâd yn ôl trwy gysylltu â Sean Weaver, Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data'r Brifysgol.

Yr Hawl i Gwyno i'r ICO: Os ydych yn anhapus gydag unrhyw ymddygiad y Brifysgol mewn perthynas â'r defnydd o'ch data, gallwch gysylltu â'r ICO gan ddefnyddio'r manylion yn Adran 4 a 5 yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Os ydych yn anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei phrosesu, gallwch yn y lle cyntaf gysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, yna mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth bersonol?

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio ar ein systemau electronig a'n cronfeydd data diogel a chaiff ei rhannu â chydweithwyr perthnasol yn y brifysgol i ddarparu gwasanaethau ac arweiniad i chi. Diogelir gwybodaeth bersonol gan y brifysgol ac ni chaiff ei datgelu i drydydd partïon heb ganiatâd ac eithrio pan fo angen fel rhan o'n rhwymedigaethau cytundebol e.e. i gyllidwyr prosiect neu bartneriaid y prosiect yn cefnogi eich rhyngweithio â ni.

Mae gwybodaeth ar gael i bobl neu sefydliadau sydd angen mynediad am y rhesymau a amlinellir uchod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Staff academiaidd, technegol a gweinyddol y Brifysgol;
- Byrddau llywodraethu a rheoli gweithrediad y Brifysgol;
- Cyllidwyr allanol a phartneriaid/cynghorwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch cydweithrediad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd;
- Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drwy ffurflenni ystadegol e.e. Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ayyb.

Er mwyn darparu cynigion o wasanaethau gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd i danysgrifwyr corfforaethol, caiff eich data ei brosesu gan Brevo, at ddibenion anfon diweddariadau e-bost. Mae polisi preifatrwydd Brevo i'w weld [yma](#).

Bydd unrhyw ddatgeliadau a wneir gan y Brifysgol yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data a bydd eich buddiannau'n cael eu hystyried.

Pa wybodaeth categori arbennig mae'r GYA yn ei chasglu?

- Gwybodaeth iechyd fel gofynion dietegol neu hygyrchedd (ar gyfer mynychu'r digwyddiad).

Rhesymau dros gasglu gwybodaeth bersonol a chategori arbennig a sut mae'r GYA yn ei defnyddio:

Er nad yw'n bosibl nodi pob pwrpas y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio ar ei gyfer, mae'r canlynol yn enghreifftiau o sut mae'n debygol o gael ei defnyddio tra'ch bod yn gleient/partner.

- Gwerthuso pwy sy'n gymwys i gael cymorth gan y Brifysgol yn unol â gofynion cydymffurfio â chyllid a phroses cymeradwyo prosiectau'r Brifysgol;
- Monitro a gwerthuso ymrwymadau ar lefel rheoli gweithrediad a llywodraethu;
- Adrodd i gyllidwyr prosiectau a cheisiadau am ddata'r llywodraeth;
- Casglu gwybodaeth am eich cyflogaion neu'ch sefydliad fel rhan o'r broses i ddarparu gwasanaethau neu arweiniad i'ch sefydliad;
- Dadansoddi'n ystadegol y cysylltiadau masnachol sy'n bodoli ar draws Prifysgol Metropolitan Caerdydd o bryd i'w gilydd;
- Darparu cynigion o wasanaethau i danysgrifwyr corfforaethol gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd;
- Mewn cysylltiad â chyflawni prosiectau ymchwil/gweithgaredd archifo fel y cynhelir fel arfer gan sefydliadau cyhoeddus ac yn unol â mesurau diogelu Erthygl 89 GDPR y DU; a
- Marchnata uniongyrchol.

Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu?

Erthygl 6.1 (a) — Cadarnhâd

Mae gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd i brosesu ei ddata personol at un neu fwy o ddibenion penodol;

Erthygl 6.1 (b) — Cyflawni Contract

Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract y mae gwrthrych y data yn barti iddo neu er mwyn cymryd camau ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i gontract;

Erthygl 6.1 (f) — Buddiannau Cyfreithlon

Efallai y bydd angen prosesu rhywfaint at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilyniir gan y Brifysgol neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrych y data sy'n gofyn am ddiogelu data personol.

Erthygl 9.2 (a) — Caniatâd Eithriadol

T ef gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd penodol i brosesu data personol hynny at un neu fwy o ddibenion penodedig, ac eithrio lle mae cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth yn darparu na chaiff y gwaharddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 1 yn cael ei godi gan wrthrych y data;

Sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio? (Diogelwch prosesu)

Fel y Rheolwr, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi gweithredu mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau bod data personol a brosesir yn parhau i fod yn ddiogel, ond ni ellir gwarantu diogelwch llwyr. Os oes gennych bryder penodol am ddull penodol o drosglwyddo data, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i ddarparu dull amgen. I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch TG ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, a chadw eich data yn ddiogel, cliciwch yma.

Pa mor hir fydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?

Bydd eich data'n cael ei gadw'n ddiogel gan y Brifysgol yn unol â'i [Pholisi Rheoli Cofnodion](#). Gellir cadw eich data personol drwy gydol eich ymgysylltiad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ac am gyfnod rhesymol ar ôl iddo ddod i ben i gydymffurfio â gofynion archwilio rheoleiddiol a chadw dogfennau. Gellir cadw gwybodaeth a gedwir at ddibenion ymchwil ac archifo am gyfnod hirach ac yn unol â mesurau diogelu Erthygl 89 y GDPR. Ar ôl i'r cyfnod cadw ddod i ben, bydd eich data yn cael ei ddileu yn ddiogel. Os hoffech gael gwybod beth yw'r gofynion cadw, anfonwch e-bost at rissupport@cardiffmet.ac.uk.

Eich cyfrifoldebau

Rhowch wybod am unrhyw newidiadau i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt ac ati cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl fel y gallwn ddiwygio ein cofnodion yn unol â hynny.

Ni ddylech ddefnyddio'ch perthynas a'ch cydweithrediad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd at unrhyw ddibenion y wasg neu farchnata heb ganiatâd penodol Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Gwneud Penderfyniadau a Phroffilio Awtomataidd

Nid yw'r Brifysgol yn prosesu eich data ar gyfer gwneud penderfyniadau neu broffilio awtomatig.

Cyffredinol

Ni chewch drosglwyddo unrhyw un o'ch hawliau o dan yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn i unrhyw berson arall. Gall y Brifysgol drosglwyddo ei hawliau o dan yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn os yw'n credu'n rhesymol na fydd effaith ar ei hawliau.

Os bydd unrhyw lys neu awdurdod cymwys yn canfod bod unrhyw ddarpariaeth yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, bernir bod y ddarpariaeth neu'r rhan-ddarpariaeth honno, i'r graddau sy'n ofynnol, yn cael ei dileu, ac ni effeithir ar ddilysrwydd a gorfodadwyedd darpariaethau eraill yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

Oni chytunir yn wahanol, ni fydd unrhyw oedi, gweithred neu anwaith gan barti wrth arfer unrhyw hawl neu rwymedi yn cael ei ystyried yn ildiad o hynny, neu unrhyw hawl neu rwymedi arall.

Bydd yr Hysbysiad hwn yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr. Bydd pob anghydfod sy'n codi o dan yr Hysbysiad yn ddarostyngedig i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

Newidiadau i'r Hysbysiad hwn

Gall y Brifysgol ddiweddarau'r hysbysiad hwn i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith neu ei harferion preifatrwydd. Fodd bynnag, ni fydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn defnyddio eich data personol mewn unrhyw ffyrdd newydd heb eich caniatâd.

Bydd unrhyw newidiadau a wnawn i'n polisi preifatrwydd yn y dyfodol yn cael eu postio ar y dudalen hon a lle bo'n briodol, yn cael eu hysbysu i chi drwy e-bost. Gwiriwch yn ôl yn aml i weld a diweddariadau neu newidiadau i'n polisi preifatrwydd.

Sut i Godi Ymholiad, Pryder neu Gwyn

Os oes gennych ymholiadau, pryderon, neu os ydych am wneud cwyn o hyd, datgelir manylion am sut y gallwch gael eich datgelu o dan Adrannau 'Enw a Chyfeiriad y Swyddog Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth Data' ac 'Enw a Chyfeiriad yr Awdurdod Goruchwyllo Arweiniol' o'r Hysbysiad hwn.

Canlyniadau peidio â darparu eich gwybodaeth

Byddai canlyniadau peidio â darparu eich gwybodaeth pan fo angen ar gyfer cyflawni contract neu er mwyn cymryd camau ar gais yr unigolyn cyn ymrwymo i gontract, yn golygu na fydd y Brifysgol yn gallu cynnig rhywfaint o gynnyrch a gwasanaethau i chi, ac yn wir o bosibl, dim o'i chynnyrch a'i gwasanaethau hebdo.

Caniatâd i Dderbyn Marchnata Electronig

Fel cyswllt gwerthfawr y GYA ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, rydym am fod yn dryloyw gyda chi bod eich data yn cael ei gadw yn ein Cronfa Ddata CRM. Mae eich manylion wedi cael eu nodi naill ai drwy gyswllt â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd neu drwy ein gweithgareddau datblygu perthynas.

Cedwir eich gwybodaeth gan y GYA yn unol â'r Datganiad Preifatrwydd hwn.

Cedwir eich gwybodaeth gorfforaethol i'n galluogi i ohebu â chi, ateb eich ymholiadau ac i roi arweiniad a chymorth.

Yn unol â deddfwriaeth byddwn bob amser yn rhoi cyfle i chi optio allan o farchnata electronig perthnasol yn y dyfodol gan y GYA.

I optio allan o dderbyn gohebiaeth farchnata uniongyrchol gan y GYA e-bostiwch rissupport@cardiffmet.ac.uk.

Ni fydd eich manylion byth yn cael eu rhannu â sefydliad arall i'w galluogi i farchnata i chi.